

Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer

Tachwedd 11, 2019

Presennol: Tyly Roberts, (Cadeirydd), Clwyd Davies, Emyr Jones, Geraint Roberts, Gwyn Roberts, W D Williams, Lis Puw (Clerc) Eleri Jones

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod a derbyniwyd Ymddiheuriadau Eleri Jones a'r Cynghorydd Alan Jones Evans.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Medi 9fed, 2019
5. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Arbennig 2/10/19
6. Materion yn codi:
 - a. Cyflwr Eglwys Santes Gwawr – cytunodd y Clerc i geisio cael ymateb drwy ffonio swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri, gan na chafwyd ymateb i ohebiaeth.

Cytunwyd i brynu arwydd “Dim cŵn” i’w osod ar giât y fynwent
 - b. Ymateb i’r gŵyn am BDO – ni dderbyniwyd ymateb gan yr Archwilydd Cyffredinol. Diolchwyd am gydnabyddiaeth yr Aelodau Cynulliad.
7. Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth y Cynghorydd Alan Jones Evans y bydd camerâu cyflymder yn cael eu gosod yn Llangywer cyn y Pasg.
8. Pwyllgor Ymgynghorol Llyn Tegid: roedd dryswch wedi bod yn y dyddiad ar y llythyr gwahoddiad. Cytunodd y Clerc i ohebu am hyn gyda swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri.
9. Bash Mawr Y Bala – adroddodd Tyly Roberts bydd hwn yn cael ei gynnal ar benwythnos ym Medi a bydd yr A494 ar gau ar fore Sul yn unig. Roedd cymeradwyaeth i’r newid hwn.
- 10. Materion ariannol:** Derbyniwyd gwybodaeth fanwl am y sefyllfa ariannol. Cytunwyd i daliadau am dorri’r fynwent, yr Archwilydd Mewnol a thâl aelodaeth SLCC (rhannu efo Cynghorau Llanuwchllyn a’r Bala)
- 11. Materion lleol gan aelodau’r Cyngor Cymuned**
 - a. Diolchwyd i Gyngor Gwynedd am waith da yn trwsio pont Rhiwaedog, Rhosygwaliau. Yn anffodus, bu damwain yn ddiweddar gan ddifrodi ochr arall y bont. Cytunwyd i anfon at Gyngor Gwynedd i ofyn am brysuro gyda’r gwaith gan fod y sefyllfa’n hynod o beryglus.
 - b. Cytunwyd i anfon i dynnu sylw at dyllau yn y ffordd B4033 wrth Rhiw Ceri a Bryn Tirion; mae’r tyllau’n beryglus i seiclwyr sy’n defnyddio’r ffordd yn y nos yn ogystal ag yn y dydd.

- c. Daeth cwynion i law am y perygl ar ôl i'r Cwmni Rheilffyrdd Llyn Tegid dorri'r tyfiant wrth y bont rheilffordd yn ymyl pont Mwnwgl y Llyn. Mae'r ffordd yn troi, ond gellid yn hawdd iawn feddwl fod y ffordd yn syth yn y fan hon n awr, yn arbennig gyrywyr sydd ddim yn gyfarwydd â'r ffordd. Ar ben hyn, mae'r gwaith tocio wedi ymyrryd ar ddraenogod, nifer sylweddol ohonynt wedi eu lladd ar y darn hwn o'r ffordd.
- d. Mae angen camera cylch cyfyng ar y corlan biniau yn y maes parcio wrth y llyn yn Llanygerw oherwydd fod rhywrai'n cam-ddefnyddio'r lle: mae'r clo wedi ei dorri'n fwrriadol ac mae gwastraff yn cael ei adael yno; mae pryder arbennig am y drymiau olew sydd wedi eu gadael yno oherwydd y perygl o lygredd yn llifo i'r ffos.
- e. Cytunodd y Clerc i ohebu gyda'r Parc Cenedlaethol i holi am yr hawl i gladdu yn rhan isaf y fynwent, gan mai ychydig o ofod sydd ar ôl yn y rhan uchaf.
- f. Cytunwyd i ofyn i Barc Cenedlaethol Eryri gymryd camau i atal pobl aros dros nos ar lan y Llyn ac mewn encilfeydd.

12. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd gwahoddiad i noson gymdeithasol.

13. **Gohebiaeth:**

- i. **Parc Cenedlaethol Eryri:** Cymeradwywyd cais NP5/70/67B Glanhirnant, Rhosygwaliau i newid defnydd annedd i hostel
- ii. **Cyngor Gwynedd:** Nodwyd derbyn gwahoddiad i agoriad Ysgol Godre'r Berwyn
- iii. **Bio-amrywiaeth:** Derbyniwyd adroddiad trwy law Un Llais Cymru; derbyniwyd gwybodaeth 11/11/19 fod angen adroddiad ar hyn i'r Llywodraeth erbyn diwedd 2019. Cytunodd y Clerc i lunio adroddiad.
- iv. **Y gronfa di-ffib:** derbyniwyd gwybodaeth am y gronfa hon a thrafodwyd rhai awgrymiadau ar gyfer cynnal, profi a glanhau'r di-ffib.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 20/1/20

Amser gorffen: 8.45pm